**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 p.m. ddydd Iau 28 Tachwedd 2024 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry

**Sylwedydd:** Katrin Shaw

**Yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Iwan Thomas

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Natalie Beard
Dr Tracy Cruickshank
Maria Dinu
Yr Athro Kyle Erickson
Dr Deborah Hughes
Uzo Iwobi
Rowland Jones
Geraint Roberts

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 24.37 Ymddiheuriadau | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Geraint Evans, Deris Williams, Emlyn Schiavone, Yr Athro Mirjam Plantinga, Debra Williams. |
| 24.38 | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (CJO284). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| Datgan Buddiannau | Gwnaeth y Clerc atgoffa'r aelodau i nodi unrhyw eitemau ar yr agenda y byddai'r buddiannau a ddatganwyd ganddynt yn debygol o ymwneud â nhw. |
| 24.39<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO285) a oedd yn canolbwyntio ar fusnes PCYDDS. |
| 24.40<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad llafar gan yr Is-Ganghellor a oedd yn canolbwyntio ar faterion PCYDDS. |
| 24.41<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad<br>2 Hydref 2024 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024 (JCO288a). |
| 24.42<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad<br>13 Tachwedd 2024 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024 (JCO288b). |
| 24.43<br>Adroddiad rheolaeth ariannol ac arian parod | DERBYNIODD y cyngor yr adroddiad rheolaeth ariannol ac arian parod, a oedd wedi'i ddiweddaru ers cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (JCO289).<br><br>Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol fod y gweithrediadau craidd yn unol â'r gyllideb, gan gyflawni arbedion cyflogres drwy swyddi gwag oedd heb eu llenwi. Roedd yr arian parod bellach o flaen y gyllideb ac yn unol â'r amrywiant Elw a Cholled.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol at Wasg Prifysgol Cymru, gan nodi bod gwerthiant ychydig ar ei hôl hi ar hyn o bryd. |
| 24.44<br>Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad 2023/24 (JCO292). |
| 24.45<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2024 (JCO293a). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
| --- | --- |
| 9 Hydref 2024 | |
| 24.46<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg:<br>18 Tachwedd 2024 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2024 (JCO293b).<br><br>Adrodd Cadeirydd y Pwyllgor Academaidd fod Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried yr adroddiad Blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol, ynghyd ag Adrodd yr Archwilwyr Allanol a'r Memo Cwblhau.  Ar adeg y cyfarfod, roedd nifer o faterion heb eu datrys.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad yr Archwilwyr Allanol (JCO309) a CHYMERADWYODD arwyddo'r adroddiad Blynyddol a'r datganiadau blynyddol (JCO308) yn amodol ar gwblhau'r eitemau a oedd yn weddill.<br><br>Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar drafodaethau mewn perthynas ag apwyntio archwilwyr mewnol ac allanol.  Mae'r archwilwyr presennol wedi'u penodi ar gytundeb tair blynedd (i2024/25), gydag opsiwn i'w hymestyn am flwyddyn arall.   O ystyried trafodaethau a gofynion presennol y sector ar amser yr arweinyddiaeth uwch, roedd y pwyllgor Archwilio a Risg wedi cytuno y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi yn y cyfarfod nesaf i'r opsiwn o ymestyn am flwyddyn arall, cyn gwneud argymhellion i'r Cynghorau.<br><br>Derbyniodd y Cyngor y Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO305). |
| 24.47<br>Adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Cyngor 2023/24 (JCO294a). |
| 24.48<br>Adroddiad Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>17 Hydref 2024 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024 (JCO295).<br><br>DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad ar drefniadau ar gyfer yr Adolygiad Effeithlonrwydd Llywodraethiant, a fyddai'n dechrau yng Ngwanwyn 2025 (JCO297).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y ddau Gyngor (JCO314).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor ddiwygiadau arfaethedig yn Ordinhadau PC (JCO316).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y fersiwn derfynol o gynllun gweithredu Camm a llofnododd y cynllun fel y'i cwblhawyd (JCO317). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | |
| 24.49<br>Adroddiad Blynyddol Enwebiadau a Llywodraethu | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu 2023/24 (JCO296). |
| 24.50<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor gofnodion anghyfyngedig a chyfyngedig y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024 (JCO300a a b). |
| 24.51<br>Cadarnhad blynyddol o lofnodwyr | Cynghorion (JCO301):<br><br>(a) CYMERADWYODD y rhestr o lofnodwyr awdurdodedig 2024/25;<br>(b) Cymeradwywyd y broses o greu atwrneiaeth i alluogi'r Prif Swyddog Gweithredu i lofnodi dogfennau cyfreithiol y cwmni ar ran yr Is-Ganghellor;<br>(c) Nodwyd gweithredwyr awdurdodedig Sêl PC 2024/25. |
| 24.52<br>Datganiad Caethwasiaeth Fodern Flynyddol | CYMERADWYODD y Cyngor y Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl 2023/2024 (JCO302). |
| 24.53<br>Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Prevent | CYMERADWYODD y Cyngor (JCO303):<br><br>(a) Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Prevent 2023/24 i'w gyflwyno i Medr;<br>(b) (b) Ffurflenni Dyletswydd Prevent ar gyfer y ddau sefydliad. |
| 24.54<br>Adroddiad gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad gweithredu'r Cadeirydd (JCO304). |
| 24.55<br>Datganiadau o Ddiddordeb | Nododd DR Liz Siberry ei datganiad fel Ymddiriedolwr Gregynog.<br><br>Nid oedd datganiadau o ddiddordeb ychwanegol. |
| 24.56<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Ionawr 2025. |

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55